- 3.10** Remote sensing technology is emerging to help target areas for in-field assessment, and for in-field assessment to help refine remote sensing data¹⁴. Soil Association is a delivery partner in a Horizon Europe Framework Programme project to validate and develop soil health indicators. The project is creating an open access European-wide digital infrastructure, termed “AI4SoilHealth” . This infrastructure will be used for assessing and continuously monitoring soil health metrics by land use and/or management. A soil health measurement app is due to launch in 2026, and the UK pilot site is the UK Centre for Ecology & Hydrology’s (UKCEH) Plynlimon research catchment.

⁹ [Soil health in Westmorland Dales](#)

¹⁰ [UK Soil Health Measurement Research.pdf](#)

¹¹ <https://www.globalfarmmetric.org/>

¹² [Profitable and sustainable farming | Soil Association Exchange](#)

¹³ [21f3ea_5acb58c9b5724003bcb16c563fa808c6.pdf](#)

¹⁴ [Soil mapping for precise land management | Farming Connect](#)

4. Classification of soils for land use

- 4.1** To date, 747 soil types have been identified in England and Wales, each with distinct properties shaped over geological time. These soils determine land productivity, influencing suitability for crops, livestock, and forestry, and play a key role in erosion, flood risk, and carbon storage.
- 4.2** We need a strategic approach to delivering the types of nature and climate friendly farming and the habitats that we need to avert the nature and climate crises and ensure food resilience.
- 4.3** We believe a land use framework informed by soil classification mapping is a key tool for shaping the policy needed to deliver this new approach to land. Soil Association has been calling for land use frameworks for years to give the clarity and confidence that nature-friendly farmers, land-users and progressive businesses need to invest in the future of the countryside.
- 4.4** It is therefore encouraging that Welsh Government Soils and Land Use Policy Team are considering the development of a soil functions and services map of Wales¹⁵.
- 4.5** Welsh Government’s “Soil function maps resource review” report of July 2024 states that “the aim of the map will be to provide best available information to support and balance land use decisions where trade-offs between soil functions and land use demands compete....The map will allow specialists and non-specialists to understand and quantify the impact of land use and policy decisions on a range of soil functions and services.”
- 4.6** Given that not all land is equally productive for food and that the way that land is farmed will determine whether Welsh Government can avoid unnecessary trade-offs between food, nature and climate we would also add that a soil function and services map must do more than merely guide land use change decisions, as a refinement of planning policy regarding the ‘best and most versatile land’ of ALC Grades 1-3a. A strategic approach to land use is needed to help target government support and regulation to encourage the farming *practices* or farm *types* that best match the carrying capacity or environmental vulnerabilities of the land.
- 4.7** On high yielding land, for example, regenerative practices and the use of ‘eco-infrastructure’ such as wildflower habitats, shelter belts and hedges can boost pollinators and pest control services to help sustainably optimise yields. Less productive land suits more extensive farming practices, including those which create and maintain semi-natural habitats, including meadows, heath, and wood pasture, which are critical for carbon sequestration and nature recovery. To tackle the nature and

¹⁵ [Soil function maps resource review](#), Welsh Government Soil Policy Evidence Programme 2023-24 report (July 2024)

climate crises, it is also critical to protect, restore and create woodlands, wetlands, and peatlands.

5. The policy and legislative mechanisms to protect soils and productive land (including the Sustainable Farming Scheme, National Minimum Standards and planning policy (amongst others))

5.1 To achieve healthy soils we need to focus on restoring multiple soil functions. This requires changes across the whole agricultural system. The Soil Association report, “Saving our Soils: healthy soils for climate, nature and health”¹⁶ (2021) offers a suite of policy actions to support this:

5.6 Provide clear incentives for farmers to monitor their soil health and improve it above their soil type baseline. Commit to a legally binding soil health target underpinned by properly funded national soil monitoring scheme.

5.7 Support farmers to increase plant and animal matter being returned to soil through an increase in cover crops/green manures and a reintegration of grass-fed livestock. This then needs to connect with policies around nutrient pollution reduction.

5.8 Increase incentives for farmers to increase use of minimum or no-till systems, along with support for drastically reduced pesticide use and conversion and maintenance of organic farming.

5.9 Covering up bare soil – farmers should be supported to increase use of fertility-building green manures/cover crops, or the of the area under permanent grassland and longer leys, particularly on vulnerable soils. A strict regulatory baseline needs to be developed to keep vulnerable soils better covered. Monitoring should include a minimum percentage of bare soils at any time of year.

5.10 Bring more trees into the farmed landscape – agroforestry systems protect soils from erosion by wind and water

5.11 Reducing compaction - awareness of this issue should be raised amongst farmers via advisory services and written guidance, and baseline regulations should have compaction prevention as a clear standard.

5.12 Designing crop rotations to improve soil health – longer and better rotations and intercropping should be incentivised alongside better support for farmers to move to niche and protein crops. New baseline regulations should help the transition away from basic rotations.

¹⁶ <https://www.soilassociation.org/media/24941/saving-our-soils-report-dec21.pdf>

Sustainable Farming Scheme

- 5.13** Elements of many of the Soil Association's 'Saving our Soils' policy actions are contained in the Sustainable Farming Scheme: proposed scheme outline (2024).
- 5.14** With proper guidance and data safeguards, UA3: Soil Health Planning could create a valuable national soil dataset, benefiting the SFS and enhancing soil regulation. Farmers' concerns about data privacy must be addressed to encourage uptake of the SFS.
- 5.15** Soil test results will also require interpretation to ensure that appropriate management responses and potential SFS actions are identified. The SFS should provide guidance to help all farmers in the scheme understand soil structure and soil biology if these are assessed, and to signpost to further sources of advice and SFS Optional and Collaborative actions.
- 5.16** There is a clear need and opportunity to turn Universal layer plans and reports into actions, such as through the Optional and Collaborative layer. Without this, the level of ambition of a number of Universal actions will remain similar to regulatory baselines in Wales or elsewhere in the UK.
- 5.17** As such, alongside the need to 'ratchet up' their requirements over time, such as to include requirements to assess other indicators of soil health (eg earthworm numbers and a Visual Evaluation of Soil Structure), the overall effectiveness of the soil standards will rely on the ambition of other SFS requirements, and how the scheme is delivered as a whole. Payment rates and advisory support for practices like nutrient and pest management and support for organic farming will be crucial for promoting soil-focused farm practice.
- 5.18** Similarly, opportunities to reduce risks to vulnerable soils could be delivered by Universal Action 13: Tree Planting and Hedgerow Creation Opportunity Plan if guidance and mapping involves soil types and vulnerabilities, plus topography and potential nutrient and soil runoff pathways, to suggest parts of the farm where tree planting or hedgerow expansion could deliver benefits for soil health.
- 5.19** SFS support for organic farmers (and conversion to organic) will be crucial, particularly to provide support for farmers to transition to sustainable farming practices in catchments where soils and water are at risk from the cumulative impacts of agricultural intensification. We welcome the rollover of Organic Support Payment in 2025, but the sector needs clarity around what support will be available in the SFS in 2026.
- 5.20** Current soil health regulations mainly target individual issues in a fragmented manner. A 2020 study by the University of Sheffield and ADAS found that while farmers recognised the importance of sustainable soil management, few applied a wide range of practices

holistically. Since farms are complex systems, future soil regulations and SFS support will be more effective if delivered using a whole farm system approach.

5.21 We suggest that further protection of soils in Wales could be achieved through SFS requirements towards maize growing, a high risk crop for soil erosion. The Agriculture and Horticulture Development Board (AHDB) notes that much of Wales is regarded as marginal for maize growing, being wetter and more exposed than much of England.

National Minimum Standards

5.22 We believe the current regulatory framework across Wales is too fragmented and we supported the Agriculture White Paper (2020) proposals to consolidate existing legislation under a set of National Minimum Standards (NMS), applicable to all farmers and land managers in Wales regardless of whether they choose to enter the SFS. This will provide a level playing field across Wales and will ensure that the SFS is not undermined by farming businesses that are not participating.

5.23 We wish to see a commitment to develop an NMS framework. There are potential risks to soils, water, and biodiversity arising from further intensification of agriculture if farmers choose not to participate in the SFS. Furthermore, value for public money is reduced if SLM gains secured through scheme payments are offset by regulatory failure to control damaging practices or pollution on the same farm or elsewhere.

5.24 Within the Basic Payment Scheme's Cross Compliance framework a regulatory baseline for soil is provided by Good Agricultural and Environmental Conditions (GAEC). GAECs 4 (minimum soil cover), GAEC 5 (managing land to limit soil erosion) and GAEC 6 (maintenance of soil organic matter) represent the minimum standards of protection against soil loss and damage to soil health. We support recommendation 6 of the recently published statutory review of the Control of Agricultural Pollution Regulations: 2025 to bring GAEC 5 (managing land to limit soil erosion) into regulation within 18 months. However, GAEC 4 (minimum soil cover) is a non-statutory standard and gains function from Cross Compliance. GAEC 4 should be brought into the SFS and subsequently into NMS (alongside other soil-related regulation) to maintain protection against soil loss across Wales.

6. The potential for legal frameworks and targets for soils

6.1 Welsh Government's support for the Global Biodiversity Framework requires cutting nutrient losses to the environment by half and pesticide losses by two-thirds by 2030. While the SFS may help, Wales lacks a binding soil health target and national soil strategy to drive lasting progress.

6.2 It is welcome that Welsh Government have invested in soil monitoring in the last 10 years through the Environment and Rural Affairs Monitoring and Modelling Programme

and have established a Soil policy evidence programme to review evidence of the condition of Welsh soil and how agricultural practice is affecting it.

- 6.3 Wales does not yet have a dedicated soil strategy and soil action plan. The publication timeline for Welsh Government’s Soil Policy Statement is currently unclear. The statement will set out Welsh Government’s “vision for the sustainable management of agricultural soils for future generations”¹⁷.
- 6.4 We suggest an overarching vision should refer to all soil, acknowledging the importance of soil in urban and non-agricultural locations. These soils are often overlooked by policy, and due to lack of knowledge and understanding by managers are at risk of degradation.
- 6.5 The Well-being of Future Generations Act national indicator for 'Concentration of carbon and organic matter in soil,' is a key metric, as it reflects soil health, fertility, and its ability to sequester carbon, thus contributing to climate change mitigation.
- 6.6 However, Well-being indicators and a Soil Policy Statement alone are not enough. A comprehensive soil strategy and action plan that includes the policy, monitoring and investment is required to ensure that all soils in Wales are managed in a way that improves their health and productivity, supports biodiversity, and contributes to climate change mitigation.
- 6.7 Section 4 of the Agriculture (Wales) Act 2023 requires the Welsh Ministers to prepare and publish indicators and targets to measure progress towards achieving the SLM objectives. We would like to see a soil health target and indicators included in this suite.

¹⁷ [Soil management | GOV.WALES](https://gov.wales/soil-management)

Andrew RT Davies AS,
Cadeirydd,
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Buffy Williams AS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

24 Mawrth 2025

Annwyl Andrew a Buffy,

Deiseb P-06-1507 Rydym yn galw ar Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Llywodraeth Cymru i greu cynllun hyfyw a chynaliadwy ar gyfer dyfodol hirdymor campws Llambod

Cyfarfu'r Pwyllgor Deisebau ar 10 Mawrth a bu'n trafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Esther Weller.

Cytunodd y Pwyllgor y byddwn yn ysgrifennu at y ddau ohonoch i dynnu sylw at y ddeiseb a chynigion amgen y deisebydd, sydd wedi'u cynnwys yn yr ohebiaeth atodedig, i'w hystyried fel rhan o'ch gwaith craffu parhaus.

Cytunwyd hefyd y byddwn yn ceisio codi'r ddeiseb mewn dadleuon ar y sector addysg uwch yn y dyfodol, ac yng ngoleuni'r camau gweithredu hyn gwnaed penderfyniad gan y mwyafrif o'r Aelodau i gau'r ddeiseb.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: [P-06-1507 Rydym yn galw ar Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Llywodraeth Cymru i greu cynllun hyfyw a chynaliadwy ar gyfer dyfodol hirdymor campws Llambod](#)

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb drwy e-bost at y tîm clericio yn deisebau@senedd.cymru

Yn gywir,



Carolyn

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



P-06-1507 We call on UWTSD and the Welsh Government to create a viable, sustainable plan for the long-term future of Lampeter campus - Correspondence from the Petitioner to the Committee, 04 March 2025

Background information for Petitions Committee meeting 10/3/25

The university at Lampeter is Wales's oldest university; the 3rd oldest in England and Wales after Oxford and Cambridge. It is a globally significant institution of higher education. The decision to end undergraduate teaching at Lampeter marks a devastating blow not only to the Lampeter campus but to the cultural, historical, and educational heritage of Wales. UWTSD have allowed the closure of an institution that has shaped Wales's intellectual and cultural identity for nearly 200 years.

The decision has been framed as a financial necessity. We, the Lampeter Society, do not accept that narrative. The decline of Lampeter was not inevitable but engineered through successive cuts, neglect, and strategic missteps that reduced a once-vibrant institution to its current state. For decades, Lampeter has been deliberately and systematically stripped of its resources and identity. Fewer courses led to fewer students, which in turn justified further reductions - a clear and calculated process of managed decline.

The decision completely disregards the devastating economic and social impact on Lampeter and south Ceredigion. The 2008 HEFCW report explicitly warned that the closure of Lampeter would have a severe economic impact on the town and surrounding area. For a rural community like Lampeter, the university is not just an employer but a cultural and social lifeline.

Lampeter is more than a campus. It is an institution of global renown, a vital thread in the cultural fabric of Wales, and a symbol of resilience and intellectual excellence. Its closure represents a national scandal, and history will not look kindly on those who allowed this to happen.

The Lampeter Society calls upon UWTSD and the Welsh Government to develop a robust way forward that honours the institution's past while securing its future. Despite the current narrative, we believe it is certainly a matter for the Welsh Government. Not stepping in when the nation's Higher Education sector is struggling, and in some cases failing, is shortsighted and indeed contravening a precedent which has already been set.

The following are alternative proposals drawn up by the Lampeter Society for the Lampeter campus.

ALTERNATIVE PROPOSALS FOR THE LAMPETER CAMPUS

A strategic review of higher education in Wales is ultimately needed as the sector grapples with a nation-wide financial crisis with falling student demand; rising costs; tuition fee-value erosion; research being undertaken at a net loss; and an over-reliance on international student income. The solution to this crisis so far has been to cut costs by reducing or closing down departments and faculties – as is the case with UWTSD, Bangor University, University of South Wales and Cardiff University. However, education should not be seen as a cost burden but rather as an investment in the nation's future. What is ultimately needed is a global and integrated vision of the future and a planned approach to reform and consolidation of HE institutions in Wales. A world-class University of Wales with member branches and campuses would rationalise course distribution, encourage world class departments, attract globally recognised academics and would reduce competition between campuses/universities across Wales.

There are four **local business options** for Lampeter on the table. These are:

I - Positioning Lampeter as a leading institution in heritage-driven education and research excellence, developing interdisciplinary degree programmes combining humanities with practical and emerging fields, such as digital studies and sustainability

II – Offering a mainstream humanities degree teaching programme that focusses on popular subjects that the Lampeter Campus is noted for globally, and allied with the **Centre for Advanced Celtic Studies**, the **Welsh National College** and the prospective **National Welsh Language Learning Institute**. The Lampeter portfolio would include Celtic studies & the Welsh language; archaeology; geography; creative writing & English; religious studies & theology; ancient/medieval history & classics; philosophy; and Chinese studies. Programme delivery would be low-cost, with a small core academic and support staff and the use of visiting 'star' alumni lecturers to add pulling power and admin volunteers

III – Turning the Lampeter Campus into an enterprise hub for Mid-Wales, offering entrepreneurship undergraduate and postgraduate degree programmes that promote sustainable economic development and the concept of the green campus

NB – We believe the above options work alongside and support the Welsh Government's ***Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015***; widening access to participation and developing a cohesive and strengthened local community and economy.

IV – Leasing out part of the Lampeter campus to an international or Russell Group university, that is looking for a rural campus and an alternative approach

Lampeter's rural and community-oriented environment holds great advantages to non-traditional and neurodivergent students. Welsh universities are experiencing a quiet epidemic of student suicides; the University of South Wales alone had more than 10 suicides last year alone. The large university metropolis does not suit many young people; the mental health benefit of being able to study in a close knit friendly environment which Lampeter is uniquely able to offer cannot be underestimated.



Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/0636/25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Mawrth 2025

Annwyl Andrew,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Ymestyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2025 ("Rheoliadau 2025").

Rydym wedi derbyn llythyr gan y Farwnes Sue Hayman, y Gweinidog Bioddiogelwch, Iechyd Anifeiliaid a Lles, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am ganiatâd wedi'i anfon at Weinidogion Cymru.

Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir o dan y canlynol:

- Erthygl 144(6) o Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ('yr OCR').

Diben Rheoliad 2025 yw ymestyn cyfnod gweithredu gwiriadau mewnfario ar rai nwyddau iechydol a ffytoiechydol penodol sy'n dod i Brydain Fawr ('DU') o rai gwledydd, tan 31 Ionawr 2027.

Bydd Rheoliadau 2025 yn ymestyn y cyfnod graddoli trosiannol rhwng 1 Gorffennaf 2025 a 31 Ionawr 2027. Bydd yr estyniad hwn yn gohirio gosod gwiriadau ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol a fewnforiwyd o'r UE i'r DU. Mae'r offeryn hwn hefyd yn ymestyn hawddfrait sy'n oedi'r gofyniad am wiriadau mewnfario (sy'n berthnasol i weddill gwledydd y byd) mewn perthynas â phlanhigion, cynhyrchion planhigion, neu wrthrychau eraill (megis peiriannau a cherbydau a ddefnyddiwyd at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth) sy'n dod i mewn i Brydain o'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir trwy Borthladd Arfordir y Gorllewin (fel y'i rhestrir yn y diffiniad o 'borthladd perthnasol' yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amllder Gwiriadau) 2022) cyn 31 Ionawr 2027, yn unol â diwedd y Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP). Y rhesymeg dros yr estyniad hwn yw atal unrhyw darfu ar fasnach a chaniatáu digon o amser i drosglwyddo i sail ddeddfwriaethol barhaol ar gyfer y Model Gweithredu Targed Ffiniau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 64
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw Rheoliadau 2025 yn ymrwmo Gweinidogion Cymru i fabwysiadu unrhyw safbwynt gan Lywodraeth y DU ar bioddiogelwch yn y dyfodol. Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tansilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r offeryn hwn fod yn berthnasol i Gymru gan nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU yn y mater hwn. Credaf nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau angenrheidiol na defnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Eitem 3.3

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0126/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Mawrth 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi y bydd cyfarfod Gohirio y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a a oedd i fod i gael ei gynnal yn wreiddiol ar 10 Mawrth nawr yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Mae disgwyl i'r cyfarfod ganolbwyntio ar yr economi gylchol, clefydau anifeiliaid, trafodaeth ar gytundeb iechydol a ffytoiechydol posibl rhwng y DU a'r UE, Labelu 'Not for EU', ac effaith y Ddeddf Farchnad Fewnol ar sector EFRA. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y trafodaethau, a bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod.

Rydym hefyd yn cynnal cyfarfod pedwarochrog ar ffiniau gyda'r Farwnes Hayman ar yr un diwrnod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and
Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@gov.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

Tudalen y pecyn 66

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0135/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Mawrth 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig y bwriedir am 31 Mawrth wedi'i ohirio. Disgwylir i'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal ar 12 Mai.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@gov.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

Tudalen y pecyn 67

Andrew RT Davies AS,
Cadeirydd,
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

27 Mawrth 2025

Annwyl Andrew,

Ynghylch deiseb P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru, deiseb P-06-1354 Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi rasio milgwn yng Nghymru, a deiseb P-06-1391 Dylid rheoleiddio'r sector steilio cŵn, er mwyn diogelu lles cŵn a hawliau perchnogion.

Cyfarfu'r Pwyllgor Deisebau ar 10 Mawrth a bu'n ystyried y ddwy ddeiseb uchod ar rasio milgwn, y gyntaf a gyflwynwyd gan Hope Rescue a'r ail gan David Tams, cyn mynd ymlaen i ystyried deiseb ar reoleiddio'r sector steilio cŵn, a gyflwynwyd gan Brian Howell.

Nododd y Pwyllgor fod bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno gwaharddiad ar rasio milgwn yn glir. Cytunwyd i ysgrifennu atoch fel Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y pwyllgor arweiniol ar gyfer craffu ar y cynlluniau deddfwriaethol hyn, i roi gwybod i chi am y ddwy ddeiseb ar rasio milgwn. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gau'r ddwy ddeiseb hyn.

Er bod mwyafrif yr Aelodau wedi cefnogi'r gwaharddiad, nid yw Joel James AS yn cefnogi gwaharddiad fel y ffordd ymlaen i fynd i'r afael â materion lles anifeiliaid, a nodir ei farn ar Ddeiseb P-06-1253 ym mharagraff 27 o adroddiad y Pwyllgor '[Y Troad Terfynol?](#)' yn 2022.

Wrth drafod y tair deiseb nodwyd bod ymgynghoriad ehangach wedi'i gynnal ar [Drwyddedu Sefydliadau, Gweithgareddau ac Arddangosfeydd Lles Anifeiliaid](#), a oedd yn cynnwys trwyddedu'r sector steilio cŵn, a bod angen gwaith craffu manwl ar gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer materion lles anifeiliaid fel rhan o'r ymgynghoriad ehangach hwnnw.

O ran Deiseb P-06-1391 Dylid rheoleiddio'r sector steilio cŵn, er mwyn diogelu lles cŵn a hawliau perchnogion, cytunwyd y byddwn i'n ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i ofyn am ragor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer darparu [model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid](#) Llywodraeth Cymru, i ymdrin â thrwyddedu'r sector steilio cŵn.



Gellir dod o hyd i fanylion llawn ystyriaeth y Pwyllgor o'r tair deiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor yma:

P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru

P-06-1354 Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi rasio milgwn yng Nghymru

P-06-1391 Dylid rheoleiddio'r sector steilio cŵn, er mwyn diogelu lles cŵn a hawliau perchnogion

Yn gywir,



Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Cyflwyno rheoleiddio'r sector ymbincio cŵn, er mwyn diogelu lles cŵn a hawliau perchnogion

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1391
Ein cyf HIDCC/00617/25

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

02 Ebrill 2025

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mawrth ynghylch deiseb P-06-1391, i gyflwyno rheoleiddio i'r sector trin cŵn.

Cafodd rheoleiddio trin anifeiliaid anwes ei gynnwys fel rhan o'n hymgyngoriad cyhoeddus ar [Drwyddedu Sefydliadau Lles, Gweithgareddau ac Arddangosfeydd Anifeiliaid](#). Cyhoeddwyd [crynodeb yr ymatebion](#) ar 18 Rhagfyr, ochr yn ochr â [Datganiad Ysgrifenedig](#). Rwy'n bwriadu cyhoeddi datganiad pellach yn manylu ar y camau nesaf yn y Gwanwyn.

Fel y nodir yn yr ymgynghoriad, dyma'r cam cyntaf yn yr ymrwymiad i ddatblygu Model Cenedlaethol ac ni allaf achub y blaen ar y canlyniad ar hyn o bryd.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 70
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Andrew RT Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach, a
Materion Gwledig

27 Mawrth 2025

Annwyl Cadeirydd,

Yn ystod y sesiwn graffu gyffredinol ar yr Economi Sylfaenol ar 14 Tachwedd 2024, nodwyd y cwestiynau canlynol fel meysydd y byddwn yn mynd ar eu trywydd gyda'r Pwyllgor.

Mewn perthynas â'r Brentisiaeth Gradd mewn Peirianeg Rheilffyrdd a ddarperir gan Brifysgol De Cymru a Choleg y Cymoedd, a fyddai modd inni weld y ffigurau recriwtio presennol, yn ogystal â'r ffigurau recriwtio a ragwelir ar gyfer y blynyddoedd nesaf?

Mae Medr, sef yr awdurdod newydd ar gyfer addysg drydyddol ôl-16, wedi nodi bod yr amcangyfrifon gan ddarparwyr ar gyfer cofrestriadau diwedd blwyddyn ym mis Ionawr 2025 yn dangos ei bod yn debyg y byddai dau fyfyrwr newydd yn cwblhau Gradd BSc Prifysgol De Cymru mewn Peirianeg Rheilffyrdd ar ddiwedd 2024/24, ac y byddai deg myfyrwr presennol (o 2023/2024 yn cwblhau'r radd ar ddiwedd 2024/25).

Gan nad yw Medr wedi gofyn i Brifysgol De Cymru gyflwyno eu hamcangyfrifon ar gyfer nifer y bobl sy'n gwneud cais i wneud Prentisiaethau Gradd yn 2025/2026, nid oeddent yn gallu rhagweld unrhyw ffigurau recriwtio ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

A fyddai modd inni gael rhagor o fanylion ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi prentisiaethau sgiliau yn y sector tai, yn enwedig o ran datgarboneiddio tai?

Rydym yn blaenoriaethu buddsoddiadau i ddiwallu ein hanghenion sgiliau presennol a'r sgiliau a fydd eu hangen yn y dyfodol drwy ddatblygu prentisiaethau mewn sectorau sy'n tyfu a galwedigaethau sy'n dod i'r amlwg, yn unol â blaenoriaethau a bennir gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, gwybodaeth am y farchnad lafur ac adolygiadau o'r sector gan Cymwysterau Cymru.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Medr sy'n adolygu cynnwys fframweithiau a llwybrau prentisiaeth, gan ganolbwyntio ar ddatblygu ac addasu'r prentisiaethau hynny sy'n cefnogi ein nodau sero net a chynaliadwyedd. Ar hyn o bryd mae gan Medr Fframwaith Tai ar Lefel 2 a Lefel 3 ac mae newydd ddatblygu Fframwaith Lefel 4. Disgwylir i'r Fframwaith Tai Lefel

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

4 sydd newydd gael ei ddatblygu gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Chwefror 2025, a bydd yn cynnwys modiwlau ar gynaliadwyedd.

Canfu adolygiad gan Cymwysterau Cymru yn 2018 fod cyflogwyr yn credu nad oedd prentisiaethau adeiladu yng Nghymru yn diwallu eu hanghenion. Yn dilyn yr adolygiad hwn, datblygodd Cymwysterau Cymru, gan weithio gyda'r sector, drefniadau newydd lle mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau Cymhwyster Sylfaen yn y coleg yn y flwyddyn gyntaf ac wedyn yn symud ymlaen i brentisiaeth ar Lefel 3. O dan y trefniadau hyn, dim ond lleiafrif o ddysgwyr y disgwylir iddynt ddechrau prentisiaeth ar Lefel 3 yn sydd ar ôl gadael yr ysgol.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB), darparwyr hyfforddiant a Cymwysterau Cymru i adolygu effaith y trefniadau newydd hyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar ofynion mynediad, yr effaith ar ddechrau prentisiaethau, gwneud cynnydd a chwblhau prentisiaethau.

Mae ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i ehangu prentisiaethau a rennir ar gyfer cyflogwyr, sectorau a rhanbarthau newydd. Er mwyn cyflawni'r ehangu hwn, gwnaethom gyflwyno model cyllido a darparu newydd yn 2022. Mae darparwyr yn y sector adeiladu'n parhau i gynnig prentisiaethau a rennir nad ydynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i gyflogwyr, gan ganiatáu iddynt barhau i gael gafael ar gyllid CITB. Er enghraifft, mae Cartrefi Melin yn gweithio gyda Chyngor Sir Fynwy ac Y Prentis ar brentisiaethau sy'n seiliedig ar adeiladu.

Mae colegau hefyd cynyddu eu darpariaeth Sgiliau Gwyrdd yn y Sector Adeiladu, drwy ddarparu amrediad o gyrsiau, gyda'r nod o uwchsgilio mewn perthynas â mesurau effeithlonrwydd ynni yn ogystal â chyflwyno cyrsiau sydd â'r nod o wneud yr agenda ôl-osod yn fwy tryloyw.

Yn unol â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gynyddu prentisiaethau gradd, CITB, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid sy'n cynnwys cyflogwyr, prifysgolion a chyrff proffesiynol, a oedd yn arwain y ffordd wrth ddatblygu llwybr adeiladu newydd a datblygu llwybrau newydd mewn peirianeg sifil, mesur meintiau, arolygu a rheoli adeiladu. Yn dilyn y gwaith hwn, mae llwybrau'r fframwaith prentisiaethau gradd mewn adeiladu wedi cael eu cynnig ers mis Medi 2024 gan Brifysgol De Cymru, Prifysgol Wrecsam a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Gan gyfeirio at y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, a all y Gweinidog gadarnhau a yw'r holl undebau llafur o fewn Trafnidiaeth Cymru bellach wedi ymrwymo i weithio'n unol â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol honno? At hynny, ac yn ehangach ar draws cyrff cyhoeddus eraill, a ydych yn hyderus y byddant yn cael eu cefnogi ag amser digyswllt hefyd?

Rhaid i gyrrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 osod a chyhoeddi amcanion wedi'u cynllunio i gynyddu cymaint ag y bo modd eu cyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau llesiant; a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion.

Ers 1 Ebrill 2024, mae gan y cyrff cyhoeddus hynny ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol i geisio consensws neu gyfaddawdu â'u hundebau llafur cydnabyddedig neu, lle nad oes undebau llafur cydnabyddedig, cynrychiolwyr eraill eu staff, wrth osod neu adolygu a chyflawni eu hamcanion llesiant. Felly, ar y cyrff cyhoeddus y mae'r ddyletswydd, yn hytrach na'r undebau llafur. Gallaf gadarnhau bod y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn berthnasol i Trafnidiaeth Cymru, ac felly mae'n ofynnol iddynt geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u holl undebau llafur cydnabyddedig.

Mae penderfyniadau ynghylch amser digyswllt yn cael eu gwneud yn lleol ac nid oes gan Lywodraeth Cymru y pŵer i ymyrryd yn y broses o wneud penderfyniadau lleol ynghylch y mater hwn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth amser digyswllt ac yn ystyried amser o'r fath yn fuddsoddiad yn hytrach na chost. Mae'n allweddol ar gyfer sicrhau bod gan weithwyr y cyfle i gael eu cynrychioli ar y cyd, sicrhau bod gweithwyr yn cael gwybod am benderfyniadau arfaethedig a allai effeithio arnynt, a'i gwneud yn bosibl i weithwyr gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny a dylanwadu arnynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailadrodd wrth gyrff cyhoeddus bwysigrwydd amser digyswllt a'r disgwyliad i undebau llafur gael yr amser priodol i allu cymryd rhan lawn yn y gwaith o weithredu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

Yn ystod y sesiwn, ymrwymodd Llywodraeth Cymru hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y canlynol, unwaith y bydd cynnydd wedi'i wneud yn y gwahanol feysydd:

Canlyniad cyfarfod cyntaf y grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd gan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, ar ôl iddo gael ei gynnal.

Mae'r cyfarfod cychwynnol arfaethedig y grŵp ar 25 Chwefror wedi cael ei ohirio oherwydd aelodau sy'n methu dod, ac rydym wrthi'n trefnu dyddiad newydd.

Manylion buddsoddiadau yn y diwydiant lled-ddargludyddion, ar ôl i Ysgrifennydd y Cabinet ystyried dau achos datblygu presennol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi buddsoddiad o £51 miliwn ar gyfer Vishay Intertechnologies. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddi mewn offer newydd yn eu ffatri yng Nghasnewydd, gyda chymorth grant o £5 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i ddiogelu 200 o swyddi yn y ffatri. Mae hyn wedi cael ei gyhoeddi.

Mae manylion terfynol yr ail fuddsoddiad wrthi'n cael eu trefnu ac mae yn y cam dogfennau cyfreithiol. Rydym yn disgwyl gwneud cyhoeddiad ddechrau mis Mawrth yn amodol ar gwblhau'r dogfennau cyfreithiol a'r diwydrwydd dyladwy yn llwyddiannus, a byddwn yn hysbysu'r pwyllgor pan fydd y prosesau hynny wedi cael eu cwblhau.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon yn ateb yr holl gwestiynau a ofynnwyd yn ystod y sesiwn graffu gyffredinol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "JACK SARGEANT". The signature is written in a cursive, slightly slanted style. Below the signature is a long, horizontal, slightly wavy line that serves as a separator or underline.

Jack Sargeant AS/MS

Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Minister for Culture, Skills and Social Partnership

Eitem 3.6

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0089/25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

31 Mawrth 2025

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Chwefror fel dilyniant i'r sesiwn ETRA ar 5 Chwefror, ynglŷn â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS).

Rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r camau gweithredu a'r gofynion arfaethedig i wneud y Cynllun yn fwy hygyrch a rheoladwy fel y nodir yn yr Amlinelliad o'r Cynllun a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd 2024. Mae'n dal yn fwriad gennyf i gyhoeddi'r Cynllun terfynol cyn gynted â phosibl yr haf hwn unwaith y bydd y cam presennol o waith gyda'r Grwpiau Ford Gron Gweinidogol a Swyddogion wedi dod i ben, ac mae gennym ganlyniadau'r dadansoddiad economaidd a'r asesiad effaith.

Mae'r dadansoddiad ar y gweill ar hyn o bryd, a bydd gennym yr allbynnau yn ddiweddarach yn y gwanwyn. Ni fydd Gweinidogion yn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol nes bod gennym y dystiolaeth hon, ac mae wedi ei drafod gyda'r Bwrdd Crwn, cyn i'r Cynllun gael ei gyflwyno yn 2026.

Unwaith y bydd penderfyniadau terfynol y Cynllun wedi'u gwneud a dyluniad terfynol y Cynllun wedi'i gyhoeddi, byddwn yn cadarnhau ein cynlluniau ymgysylltu â ffermwyr. Bydd hyn yn rhoi rhagor o wybodaeth a chefnogaeth i ffermwyr am gynnwys y Cynllun a'r cyfleoedd o Gamau Dewisol a Chydweithredol sydd ar gael iddynt. Rydym yn bwriadu i hyn gynnwys digwyddiadau personol a gynhelir ledled Cymru.

Rwy'n rhannu eich barn ar bwysigrwydd darparu digon o gyllid aml-flwyddyn i gyflwyno Cynllun llwyddiannus. Rydyn ni eisiau gwneud hyn yn iawn gyda'r bwriad o gyflawni newid ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 74
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn gweithio gyda'r Grŵp Cyflawni Rhanddeiliaid Coed a Gwrychoedd a ffurfiwyd yn ddiweddar ar dargedau lefel cynllun SFS ar gyfer plannu coed a chreu gwrychoedd yn ogystal â datblygu'r cynllun plannu coed a chreu gwrychoedd a fydd yn rhan o Haen Gyffredinol yr SFS. Mae'r wybodaeth a rennir gyda'r Grŵp yn cynnwys yr arwynebedd tir yn yr ardal sensitifrydd isel ar gyfer y cynllun Creu Coetir Grantiau Bach: 995,243 hectar sy'n cynrychioli 48% o dir yng Nghymru. Mae'r grŵp yn ystyried sut y gellir dylunio'r cynllun plannu coed a chreu gwrychoedd mewn ffordd sy'n galluogi ffermwyr i gymryd y camau cadarnhaol hyn mewn ardaloedd a fydd o fudd i'w busnes fferm a'r amgylchedd ehangach.

Yn ogystal ag [Adroddiad Cryno](#) y Panel Adolygu Tystiolaeth Atafaelu Carbon a gyhoeddwyd fis Tachwedd diwethaf, mae'r adroddiad technegol llawn bellach yn cael ei baratoi i'w gyhoeddi. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y broses o gasglu'r dystiolaeth a'r dadansoddiad dilynol. Disgwylir i'r adroddiad llawn gael ei gyhoeddi tua diwedd mis Ebrill, unwaith y bydd y gwaith cyfieithu a dylunio wedi'i gwblhau.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei gynllunio i ddarparu cefnogaeth sylweddol a hirdymor i greu diwydiant amaethyddol gwydn a chynaliadwy yng Nghymru gyda chynhyrchu bwyd o safon uchel yn ganolog iddo. Mae hon yn weledigaeth yr wyf yn siŵr ein bod ni i gyd yn ei chydhabod ac y byddwn yn cytuno â hi.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs



Ein cyf: PO/HIDCC/0090/25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

2 Ebrill 2025

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â theitlau Arglwydd y Faenor a'r effaith ar dir comin.
Byddaf yn ymdrin â'ch cwestiynau fesul un.

Cwestiwn 1: Beth yw safbwynt presennol Llywodraeth Cymru ar y defnydd o deitlau 'Arglwydd y Faenor' i feddiannu tir comin?

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod tir comin a hawliau porwyr yn cael eu diogelu gan wahanol ddeddfau Seneddol, yn enwedig Deddf Tiroedd Cyffredin 2006. Mae'r fframwaith cyfreithiol hwn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ceisio rhwymedïau drwy'r llys ar gyfer gwaith anawdurdodedig ar dir comin a gweithgareddau amaethyddol anawdurdodedig. Mae hefyd yn diddymu cau tir gan y perchennog, cyfraith ganoloesol a oedd yn caniatáu i Arglwyddi y Faenor amgáu tir comin.

Gellid ystyried teitlau Arglwyddi y Faenor yng nghyd-destun perchnogaeth tir yn fwy cyffredinol, ac os yw tiffeddiannwr yn gweithredu y tu allan i'w hawliau, efallai y bydd amddiffyniad cyfreithiol ar gael, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Er enghraifft, gellid rhoi gwybod i'r heddlu am ymddygiad troseddol o fygythiadau neu drais. Gallai unrhyw waith cyfyngedig heb ganiatâd fod yn destun cais i'r Llys Sirol (gweler adrannau 38 a 41 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006).

Gan y gall hawliau maenoraidd amrywio, nid oes safbwynt cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar y mater ar hyn o bryd. Pe bai gweithredoedd Arglwydd y Faenor, neu yn wir dirffeddiannwr, yn gweithredu y tu allan i'w hawl gyfreithiol, mae'n debygol y byddai'n cael ei ystyried yn fater preifat, ac mae'n debygol y byddai angen cyngor cyfreithiol annibynnol ar y rhai yr effeithir arnynt. Efallai y gallai undebau ffermwyr gynorthwyo pe bai ffioedd cyfreithiol ar gyfer cwmnïau cyfreithiol preifat yn ormod o faich.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 76
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cwestiwn 2: A oes unrhyw waith polisi y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod y cam o brynu'r teitlau hyn yn llai deniadol?

Fel y nodwyd uchod, mae hawliau tir comin a phorwyr cysylltiedig eisoes yn cael eu diogelu gan y gyfraith. Ar hyn o bryd prif ffocws Llywodraeth Cymru o ran tir comin yw gweithredu'r rhannau sy'n weddill o Ddeddf Tiroedd Comin 2006, yn bennaf Rhan 1, adran 25 a fydd yn cyflwyno cofrestrau electronig o diroedd comin a meysydd pentrefi. Bydd hyn yn helpu i sicrhau eu hirhoedledd ac yn darparu cofnodion hawdd cael gafael arnynt i gominwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Cwestiwn 3: Pa sefydliad(au) sy'n gyfrifol am y mater hwn a phwy ddylai fod yn cefnogi'r bobl yr effeithir arnynt?

Mae'n anodd rhoi ymateb llawn i'r cwestiwn hwn heb fanylion pellach. Fel y nodwyd, mae hawliau tir comin a phorwyr yn cael eu diogelu gan y gyfraith. Os amheuir ymddygiad troseddol gan unrhyw dirfeddiannwr neu Arglwydd y Faenor, yna dylid cysylltu â'r heddlu. Os yw'r mater yn torri deddfwriaeth tiroedd comin, er enghraifft a.38 o'r Ddeddf Tiroedd Comin 2006 lle mae gwaith cyfyngedig sy'n gofyn am ganiatâd yn cael ei wneud ar dir comin, mae'r Ddeddf yn galluogi unrhyw berson i wneud cais i'r Llys Sirol i gywiro'r sefyllfa. Efallai y gallai undebau ffermwyr hefyd gynorthwyo.

Cwestiwn 4: A yw'r Llywodraeth wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i sut y gellir diogelu hawliau porwyr ar dir comin pan brynir teitlau 'Arglwydd y Faenor' ar y farchnad agored?

Mae hawliau tir comin a phorwyr eisoes yn cael eu diogelu gan y gyfraith. Os nad yw Arglwydd y Faenor yn gweithredu o fewn ei hawliau cyfreithiol ac yn atal y cominwyr rhag arfer eu hawliau, y rheolau y maent yn eu torri fyddai'n pennu'r camau nesaf. Er enghraifft, mae digwyddiadau o ymddygiad troseddol yn fater i'r heddlu. Os yw'n fater sifil, gallent fynd â'r achos i'r llys. Unwaith eto, gallai undeb ffermwyr eu cefnogi gyda hyn.

Cwestiwn 5: A gafodd y mater hwn ei drafod fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy?

Mae sut y gall dirfeddiannwyr a'r rhai sydd â hawliau tiroedd comin gael mynediad at gyllid wedi'i ystyried yn llawn yn ystod camau datblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac mae'r Amlinelliad Cynllun diwygiedig a gyhoeddwyd fis Tachwedd diwethaf yn rhoi'r diweddariad diweddaraf ar ddatblygiad y cynllun. Os yw Arglwydd y Faenor neu dirfeddiannwr yn gweithredu y tu allan i'r gyfraith, mae hyn yn fater ar gyfer camau cyfreithiol neu, yn achos ymddygiad troseddol, yr heddlu.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Change and Rural Affairs

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/0183/25

Andrew RT Davies AS
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.cymru

2 Ebrill 2025

Annwyl Andrew,

Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Esemptiadau) (Proses a Gweithdrefn) (Diwygio) 2025

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i roi caniatâd i Weinidog Defra dros Les Anifeiliaid a Bioddiogelwch, y Farwnes Hayman o Ullock wneud Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Esemptiadau) (Proses a Gweithdrefn) (Diwygio) 2025 ("OS 2025"). Byddwch yn ymwybodol, ar adeg ysgrifennu, nad oedd fy swyddogion wedi derbyn fersiwn derfynol o'r offeryn.

Mae OS 2025 yn cael ei gwneud i ddiwygio Atodlen 1 (Sefydliadau Rhagnodedig) i Reoliadau Gwaharddiadau Ifori (Esemptiadau) (Proses a Gweithdrefn) 2022 (O.S. 2022/94) ("OS 2022").

Bydd OS 2025 yn ychwanegu tair enw ychwanegol at y rhestr o sefydliadau sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd angenrheidiol i roi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar geisiadau am dystysgrifau esemptio o dan Adran 2 i Ddeddf Ifori 2018 ("y Ddeddf"). Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol ar Lannau Mersi;
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Gogledd Iwerddon; a
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Pwrpas trosfwaol y Ddeddf yw gwahardd gweithgareddau masnachol sy'n ymwneud ag ifori yn y DU, a mewnfario ac ailallfario ifori at ddibenion masnachol i'r DU ac oddi yno.

Mae'r Ddeddf yn gwahardd masnachu eitemau a wneir o ifori, neu sy'n ei gynnwys, gydag esemptiadau cyfyngedig ar gyfer masnachu eitemau ifori nad ydynt yn cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at botsio rhywogaethau ifori yn barhaus. Mae Adran 2

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 78
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer esemptiad ar gyfer eitemau ifori cyn 1918 o werth artistig, diwylliannol neu hanesyddol eithriadol o uchel.

Rwy'n falch bod amgueddfa yng Nghymru yn cael ei hychwanegu at y rhestr o 'Sefydliadau Rhagnodedig'. Mae gan Gymru dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a thrwy gydnabod arbenigedd Amgueddfa Genedlaethol Cymru, mae'r OS yn rhoi gwell mynediad i aseswyr ar gyfer pobl Cymru.

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor hwn mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision i gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Mae'r DU wedi bod yn defnyddio dull unffurf o'r polisi hwn ers blynnyddoedd lawer a bydd alinio parhaus yn arwain at ychwanegu sefydliad Cymreig at y rhestr o 'Sefydliadau Rhagnodedig'. Bydd hyn yn sicrhau bod perchenogion a masnachwyr eitemau ifori sy'n preswyllo yng Nghymru yn cael y cyfle i drefnu bod eu heitemau yn cael eu hasesu yng Nghymru, ac o bosibl drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a allai hyn ddigwydd heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Er y gallai OS Cymreig gyflawni yr un canlyniad credaf yn gryf fod y manteision sydd ynghlwm wrth roi cydsyniad i OS y DU yn gwrthbwysu'n sylweddol y risgiau. Dyma'r dull mwyaf synhwyrol o sicrhau bod y polisi cymeradwy yn cael ei weithredu'n gyson heb unrhyw risg o wyro, o safbwynt polisi ac amseru.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 23 Ebrill 2025, gan ddefnyddio'r weithdrefn negyddol.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/0183/25

Andrew RT Davies AS
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.cymru

24 Ebrill 2025

Annwyl Andrew,

Ymhellach at fy llythyr dyddiedig 2 Ebrill, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fy mod bellach wedi rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wneud Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Esemptiadau) (Proses a Gweithdrefn) (Diwygio) 2025.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 23 Ebrill 2025 gan ddefnyddio'r weithdrefn 'negyddol'. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig i ddiweddarau'r Senedd a gellir ei weld yma: [WS-LD17131 - Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori \(Esemptiadau\) \(Proses a Gweithdrefn\) \(Diwygio\) 2025](#).

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 80
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Vikki Howells AS

Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch

3 Ebrill 2025

Annwyl Vikki,

Ymchwiliad i Lwybrau Prentisiaethau

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor wrthi'n cynnal ymchwiliad i lwybrau Prentisiaethau, a bod y Pwyllgor yn ystyried yn benodol:

- Llwylbrau rhwng gwahanol lefelau o brentisiaeth: Pa heriau sy'n wynebu prentisiaid wrth geisio dilyn llwybrau gyrfa drwy wahanol lefelau o brentisiaeth, er enghraifft, o brentisiaeth iau i radd-brentisiaeth. A yw hyn yn anoddach mewn rhai gyrfaedd/sectorau nag eraill.
- Yr economi: I ba raddau y mae llwybrau prentisiaeth yn cefnogi anghenion busnesau Cymru ac yn cyfrannu at lenwi bylchau o ran sgiliau yn economi Cymru.
- Cyflogwyr: Sut y gellir ymgysylltu cyflogwyr â'r gwaith o hwyluso'r llwybrau hyn a denu prentisiaid. A oes angen cymorth penodol i helpu microfusnesau, a busnesau bach a chanolig, i ymgysylltu â'r rhaglen brentisiaeth.
- Gwybodaeth am brentisiaethau: Sut y gellir rhannu arfer dda rhwng gwasanaethau gyrfaedd, ysgolion, colegau a chyflogwyr o ran hyrwyddo prentisiaethau a darparu profiad gwaith ystyrlon.
- Cymorth a mynediad cyfartal ar gyfer dysgwyr: I ba raddau y mae llwybrau prentisiaeth yn agored i holl bobl ifanc Cymru a pha rwystrau sy'n wynebu grwpiau penodol o ran demograffig neu ardal ddaearyddol.

- Rôl Llywodraeth Cymru: Sut mae polisïau'n cefnogi llwybrau prentisiaeth ac a oes unrhyw rwystrau sy'n rhaid ymdrin â nhw yn hynny o beth. Pa rôl sydd gan Lywodraeth Cymru, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill o ran nodi a chyfleu anghenion economaidd ac anghenion o ran sgiliau i helpu i lywio fframweithiau prentisiaeth a'r ffordd y caiff cymwysterau eu cynnig.

Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, ac mewn gohebiaeth ysgrifenedig yn dilyn y sesiwn hon gofynnodd, ymhlith ymholiadau eraill, am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Mewn llythyr dyddiedig 13 Mawrth 2025, cadarnhaodd y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol mai mater i chi yw hwn, a gofynnodd i chi ysgrifennu i ddiweddarau'r Pwyllgor ar hyn.

Felly, hoffai'r Pwyllgor gymryd y cyfle i groesawu'r diweddariad hwn, a gofyn i chi anfon eich ymateb erbyn 24 Ebrill 2025, er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf. Byddai gan Aelodau ddiddordeb hefyd mewn nodi unrhyw farn sydd gennych ar unrhyw faes arall o'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad, fel y nodir uchod, fel y gwelwch yn dda.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Cofion cynnes,



Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg





Andrew RT Davies AS,
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

24 Ebrill 2025

Annwyl Andrew

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Ebrill yn amlinellu cwmpas ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i lwybrau prentisiaethau.

Rwyf wedi cael golwg ar yr ymateb blaenorol a anfonwyd atoch gan fy nghydweithiwr, Jack Sargeant, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, ar 13 Mawrth yn gofyn i mi ateb un o gwestiynau'r Pwyllgor, ac rwy'n falch o gynnig diweddariad fel y manylir isod.

Cwestiwn Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig:

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud wrth ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol?

Y cynnydd hyd yma (Ebrill 2025):

Mae gweithredu argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol a'r adroddiad Pontio i Fyd Gwaith yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig nodi bod llawer o gyd-ddibyniaeth yn gysylltiedig â chyflawni'r argymhellion a bod y berthynas strategol rhwng Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a Medr yn bwysig iawn yn y cyd-destun hwn.

Ein nod wrth roi'r argymhellion ar waith yw cyd-fynd â'r agenda cyfranogi ehangach, gan gynnwys cwricwla 16-19 lleol a gweithio gyda Medr, Gyrfa Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a rhanddeiliaid eraill ar flaenoriaethau o ran sgiliau. Gan weithio gyda'r partneriaid hyn, ein huchelgais yw creu llwybrau cliriach a mwy hygyrch i bob dysgwr a'u helpu i gael mynediad at arweiniad priodol a'r dysgu sy'n fwyaf addas iddynt.

Yn ystod 2025 byddwn yn canolbwyntio ar nodi'r camau gweithredu tymor byr, canolig a hir sydd eu hangen ar Lywodraeth Cymru a'n partneriaid er mwyn gallu cyflawni'r argymhellion ar y cyd – gyda rhai ohonynt angen tipyn o amser i baratoi ar eu cyfer, er enghraifft cyflwyno TAAU a fydd yn cael eu haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2027 ymlaen.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vikki.Howells@llyw.cymru
Correspondence.Vikki.Howells@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar nifer o'r argymhellion sy'n trafod cymwysterau penodol yn yr Adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol, gan Cymwysterau Cymru a Medr mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Ymysg yr enghreifftiau mae ehangu aelodaeth grŵp rhanddeiliaid adolygiad sector (argymhelliad 6), craffu ar ganfyddiadau adolygiad sector ar lefel Bwrdd (argymhelliad 7), a datblygiad TAAU (argymhelliad 22). Mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi cyhoeddi [adroddiad cynnydd](#) (Medi 2024) ar eu dull wedi'i dargedu o gynyddu nifer y cymwysterau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddysgwyr (argymhellion 19 a 20).

Ynghlwm ceir cynllun cyflawni drafft ar gyfer gweithredu'r argymhellion er mwyn i'r Pwyllgor gael syniad o gwmpas a graddfa'r rhaglen, yn ogystal â'r amserlen ar gyfer ei chyflawni. Fe welwch yn y cynllun bod amserlen ddangosol ar gyfer datblygu Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol. Mae fy swyddogion yn trafod gyda phartneriaid allweddol (gan gynnwys Medr, Colegau Cymru, Cymwysterau Cymru, a Phrifysgolion Cymru) i weld os oes modd cyd-ddatblygu'r strategaeth hon o fewn yr amserlen ddangosol. Bydd trafodaethau ehangach â rhanddeiliaid yn dilyn, a dylid nodi y gallai'r trafodaethau hyn effeithio ar yr amserlen ddangosol a ddisgrifir uchod. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor os bydd unrhyw newidiadau.


Fel y gwyddoch, mae llawer o'r argymhellion yn cysylltu â'r agenda sgiliau ehangach, a byddaf yn parhau i gydweithio'n agos gyda'm cyd-Weinidogion, ac ar draws Llywodraeth Cymru a'r DU i gysoni ein nodau polisi lle bo hynny'n briodol.

Yn gywir

A handwritten signature in dark ink, appearing to read 'V. Howells', with a long, sweeping underline stroke below it.

Vikki Howells AS/MS
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch
Minister for Further and Higher Education

Ymchwil/Adroddiadau/Cyflawni



Ymgysylltu â rhanddeiliaid

¹ Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cymwysterau Galwedigaethol

² CC - Cymwysterau Cymru

³ AHG - Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol

Eitem 3.10 ALL-PARTY PARLIAMENTARY GROUP on MODERN LANGUAGES



Chair: Tonia Antoniazzi MP (Lab); Co-Chair: Baroness Coussins (CB);
Vice-Chairs: Darren Paffey MP (Lab); Lord Dykes (CB); Lord Sherbourne of Didsbury (Con).

3 April 2025

To:
Andrew RT Davies, Chair, Economy, Trade, and Rural Affairs Committee

CC:
Wendy Larnar, Vice Chancellor, Cardiff University
Damian Walford-Davies, Deputy Vice Chancellor, Cardiff University
Pat Younge, Chair of Council, Cardiff University
Vikki Howells, Minister for Further and Higher Education, Welsh Government
Baroness Smith of Malvern, Minister of State (Minister for Skills) and Government spokesperson for Equalities, Department for Education
Heledd Fychan, Chair, Wales International Cross-Party Group
Alex Barros-Curtis, MP for Cardiff West
Stephen Doughty, MP for Cardiff South and Penarth
Anna McMorris, MP for Cardiff North
Jo Stevens, MP for Cardiff East

Dear Mr Davies,

Request for economic impact assessment of proposed closures in languages and cultures at Cardiff University

The All-Party Parliamentary Group on Languages is alarmed that Cardiff University is proposing to close degrees in languages and cultures at Cardiff University.

We wish to bring your attention to this matter (7 February letter attached).

What impact assessment has been made of the economic effects in Cardiff and across Wales of closing such significant provision of languages study?

For example, Cardiff University is the largest provider of modern languages degrees in Wales, accounting for over 60 per cent of all undergraduate intake. This would make access to languages within Wales difficult for many – forcing linguists to leave Wales for their degree; reducing the number of trainee languages teachers available to Welsh schools; and risking the loss of Wales-based graduates who decide not to return as a result.

Cardiff University is a regular recipient of funds from the Turing Scheme and the Welsh Government's Taith Scheme, both of which fund international mobilities and (in the case of Taith) reciprocal international exchanges, which brings overseas students and others to Wales.

We note for example that Taith has funded five 'planned projects'¹ at Cardiff University from 2022-2024, funding 1,311 individuals to a total of £2,829,518. How many of these mobilities would be affected by these closures and what would be the financial impact?

The closures could furthermore complicate regional inequalities in economic opportunity.

We would be grateful if you could provide reassurance that full economic impact assessment has been made of the proposals, across a full range of criteria, including those above, and provide details of any such impact assessment.

Best wishes,

Tonia Antoniazzi MP, Chair

Baroness Jean Coussins, Co-Chair

All-Party Parliamentary Group on Modern Languages
APPG Secretariat: APPGML@ciol.org.uk

¹ <https://www.taith.wales/impact/planned-projects/>

ALL-PARTY PARLIAMENTARY GROUP on MODERN LANGUAGES

Chair: Tonia Antoniazzi MP (Lab); Co-Chair: Baroness Coussins (CB);
Vice-Chairs: Darren Paffey MP (Lab); Lord Dykes (CB); Lord Sherbourne of Didsbury (Con).



7 February 2025

To:

Wendy Lerner, Vice Chancellor, Cardiff University
Damian Walford-Davies, Deputy Vice Chancellor, Cardiff University
Pat Younge, Chair of Council, Cardiff University

CC:

Vikki Howells, Minister for Further and Higher Education, Welsh Government
Baroness Smith of Malvern, Minister of State (Minister for Skills) and Government spokesperson for Equalities,
Department for Education

Dear Wendy, Damian and Pat,

Call to secure the future provision of languages and cultures at Cardiff University

The All-Party Parliamentary Group on Languages urges Cardiff University to declare an immediate pause in the current proposals for the closure of degrees in languages and cultures at Cardiff University.

Proposals have caused great concern across the UK.

It is clear that the closure of honours degrees in languages, cultures and societies cannot be seen as a strictly internal matter, but will have strategic consequences affecting language provision and leadership in Wales and indeed the UK.

We urge decision makers to pause, take a wider view and commit to maintaining provision, working with staff and stakeholders to find ways forward.

The APPG is concerned that proposals will harm the reputation of Cardiff University and reflect badly on Wales and the UK more widely.

Colleagues at Cardiff University have led, and continue to lead on, nationally important work for languages, resulting in Cardiff University's enjoying a well-deserved reputation for leadership on language policy in Wales, influence on national policy, and pioneering student mentoring programmes which are influencing the whole country.

Cardiff University is the largest provider of modern languages degrees in Wales, accounting for over 60 per cent of all undergraduate intake. The impact of cuts would therefore be of national and strategic importance. It would make access to languages within Wales difficult for many – forcing linguists to leave Wales for their degree; and reduce the number of trainee languages teachers available to Welsh schools.

We note that the proposed cuts were raised in the Senedd as a matter of national urgency on February 5th, and urge all relevant parties to respond and find solutions.

It is short-sighted to lose linguistic and cultural expertise as the country's future requirements for diplomacy, security, diversified trade and exports will become more complex.

Post-Brexit, as the UK navigates new relationships and trade with the European Union and the rest of the world, including international university partnerships and preparing young people for the agile, skilled careers of the future, we will need universities to lead in providing the necessary skills and opportunities.

We urge Cardiff University to commit to be part of that future.

Tonia Antoniazzi MP
Chair

Baroness Jean Coussins
Co-Chair

All-Party Parliamentary Group on Modern Languages
APPG Secretariat: APPGML@ciol.org.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ RE/PO/160/2025

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales

09 Ebrill 2025

Annwyl Mike,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi y cafodd ail gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder ei gynnal ar 7 Mai 2025.

Dyma fydd cyfarfod cyntaf yr IMG ers cyhoeddi'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ym mis Ionawr 2022 a bydd yn cael ei gadeirio gan Weinidog Gwladol Llywodraeth y DU dros y Diwydiannau Creadigol, y Celfyddydau a Thwristiaeth, Chris Bryant AS. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod rhithwir hwn.

Rwy'n rhagweld y bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i drafod cynllun Llywodraeth y DU i gynyddu twristiaeth ryngwladol, a diweddariadau gan bob un o'r pedair llywodraeth mewn perthynas â gweithgarwch a materion yn eu priod feysydd.

Rwyf hefyd wedi copïo'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Gwir Anrh. Steve Reed OBE AS

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a
Materion Gwledig
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

10 Ebrill 2025

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol,

Attachés bwyd-amaeth a diod y DU

Fel rhan o'i gylch gwaith, mae gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ddiddordeb mawr mewn gwaith sy'n mynd rhagddo ac yn effeithio ar sectorau amaethyddol a bwyd Cymru. Gyda hyn mewn golwg, mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall y gwaith a wneir gan attachés bwyd-amaeth a diod Llywodraeth y DU sy'n gweithio yn Llysgenadaethau'r DU, a'r modd y maent yn cefnogi sector bwyd-amaeth Cymru.

Rydym ar ddeall mai rôl yr attachés – yn rhannol – yw nodi marchnadoedd rhyngwladol sy'n dod i'r amlwg, a chael mynediad at y galw ledled y byd am nwyddau gan ffermwyr a chynhyrchwyr y DU. A fyddech cystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith mewn perthynas â Chymru, gan gynnwys gwybodaeth am y modd y mae amaethyddiaeth a chynnyrch Cymru yn cael eu hyrwyddo, os gellir sôn am unrhyw gamau neu fentrau penodol? At hynny, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed am y modd y mae'r attachés yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru mewn gwledydd lle maent wedi'u cydleoli.

Rwy'n gwerthfawrogi eich sylw at y mater hwn, ac yn edrych ymlaen at eich ymateb.

Cofion cynnes,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Andrew RT Davies MS,
Chair of the Economy, Trade and Rural Affairs Committee

11 Ebrill 2025

Annwyl Andrew,

Isod mae gwybodaeth ychwanegol am yr hyn sydd wedi'i wneud dros y tair i bedair blynedd diwethaf o ran y cynnydd a wnaed ar gludo nwyddau a logisteg y gofynnwyd amdano yn dilyn Pwyllgor ETRA ar 06 Mawrth.

Mae pandemig COVID, chwyddiant cynyddol a chostau ynni, tanwydd a llafur wedi tynnu sylw mwy nag erioed at y rôl y mae cludo nwyddau a'r diwydiant logisteg yn ei chwarae wrth gefnogi economi Cymru ac ym mywyddau bob dydd pobl. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud camau cadarnhaol wrth ganolbwyntio'n fwy strategol ar nwyddau a logisteg o fewn y tymor llywodraeth hwn.

Rhoddodd Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru sicrwydd bod cludo nwyddau yn ganolog i'r gwaith hwn, a gwnaethon nhw archwilio'r data ar darddiad a chyrchfan nwyddau i ddeall patrymau cludo yn y rhanbarth. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion clir ynghylch nwyddau a logisteg.

Ar ôl i'r Panel Adolygu Ffyrdd gyhoeddi 'Dyfodol Buddsoddiad Ffyrdd yng Nghymru ar 14 Chwefror 2023, cafodd cylch gwaith Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ei estyn i ystyried sut y gellid gwneud y cysylltiadau i Ynys Môn ac oddi yno'n fwy gwydn. Gwnaed ystyriaethau yng nghyd-destun Pont Menai a ddechreuwyd yn 2023, a digwyddiadau rheolaidd a thywydd gwael sy'n effeithio ar groesi'r bont.

Ym mis Gorffennaf 2021 caeodd Road King Truckstop yng Nghaergybi (a oedd yn cael ei weithredu gan drydydd parti) a gwerthwyd y tir i CThEF i fod yn gartref i'w Cyfleuster Ffiniau Mewndirol. Porthladd Caergybi yw'r ail porthladd fferïau roll on / roll off mwyaf yn y DU ac mae'n hwyluso symud niferoedd uchel o HGVau bob dydd. O ganlyniad, roedd angen cyfleuster parcio o hyd, ac agorodd Llywodraeth Cymru gyfleuster parcio HGVau dros dro heb ragfarn. Ers agor mae'r cyfleuster wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth ac mae'n llawn y rhan fwyaf o'r nosweithiau. Mae'r cyfleuster hwn yn ardal ddiogel sy'n lleihau lladrata yn y rhanbarth, mae hefyd gyfleusterau sylfaenol ar gael (toiled a chawodydd).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethon ni gwblhau'r gwelliannau gwerth £30 miliwn ar yr A55 Aber i Dai'r Meibion ym mis Ebrill 2023. Roedd y gwaith hwn yn gwella diogelwch a'r gallu i wrthsefyll llifogydd ar hyd darn 1.2km o'r A55. Fe wnaethon ni hefyd gwblhau Pont Newydd Dyfi gwerth £46 miliwn ar yr A487 ym mis Chwefror 2024 – a oedd hefyd yn gwella diogelwch a'r gallu i wrthsefyll llifogydd. Mae'r ddau gynllun yn gwella dibynadwyedd teithiau ar gyfer cludo nwyddau ar hyd y llwybrau allweddol hyn o'r dwyrain i'r gorllewin yng ngogledd Cymru ac o'r gogledd i'r de yng nghanolbarth Cymru.

Yn ne-orllewin Cymru byddwn yn agor gwelliannau gwerth £60 miliwn ar yr A40 rhwng Llanddewi Felffre a Chroes Redstone ddechrau mis Mai a fydd yn gwella diogelwch, amserau teithio a mynediad i Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau, porthladdoedd yn Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Penfro, a thref sirol Hwlfordd.

Rydyn ni hefyd yn y camau olaf o gwblhau'r gwaith i uwchraddio 28 milltir o Ffordd Blaenau'r Cymoedd (yr A465) sydd wedi'i gynllunio i ddod â ffyniant i un o ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU. Disgwylir i'r rhan olaf gwerth £590 miliwn o Ddowlais i Hirwaun agor yr haf hwn, a bydd yn ei gwneud yn haws i bobl leol a busnesau symud o gwmpas a chreu llwybr arall cadarn rhwng canolbarth Lloegr a de-orllewin Cymru, gan leihau'r pwysau ar yr M4 yng Nghasnewydd, sy'n aml yn gweld tagfeydd.

Nid symud pobl a nwyddau o gwmpas yw unig bwrpas yr uwchraddio, ond mae hefyd yn ymwneud â chreu swyddi, ffyniant, cyfleoedd a manteision ar gyfer cymunedau, a'u cysylltu'n well, ar draws y rhanbarth, gan gefnogi mewnfuddsoddiadau i ardaloedd fel Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Rydyn ni'n parhau i wella gwytnwch y rhwydwaith ffyrdd strategol gan gynnwys disodli Pont Afon Dyfrdwy yng Ngogledd-ddwyrain Cymru a datblygu opsiynau i wella gwytnwch y pontydd ar draws Afon Menai yng Ngogledd Orllewin Cymru.

Rydyn ni hefyd wedi datblygu rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr i fynd i'r afael â strwythurau allweddol sydd angen atgyweiriadau sylweddol neu eu disodli – bydd hyn yn sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd strategol yn parhau i fod yn wydn ac ar agor ar gyfer symud nwyddau a gwasanaethau. Mae ymgynghoriadau bellach yn cael eu cynnal ynghylch Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a bydd cludo nwyddau a logisteg yn chwarae rhan amlwg ynddyn nhw.

Mae swyddogion polisi yn cwrdd â'r diwydiant yn rheolaidd drwy Logistics UK a'r Gymdeithas Cludo Ffyrdd. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau bord gron gydag Ysgrifenyddion y Cabinet a derbyniadau ffurfiol yn y Senedd. Rydyn ni hefyd yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o eraill sy'n cynrychioli'r diwydiant ac sy'n cyhoeddi erthyglau – fel y Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth. Mae ymrwymiad o fewn Llwybr Newydd i ddatblygu cynllun cludo nwyddau a logisteg, ac rydyn ni'n edrych ar ba gamau gweithredu y gellir eu cymryd yn realistig erbyn diwedd y tymor llywodraeth hwn i baratoi llwybr i unrhyw lywodraeth newydd adnewyddu'r cynllun yn 2026, gyda phum mlynedd arall o amcanion.

Cafodd Partneriaeth Zemo ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i asesu'r opsiynau polisi i ddatgarboneiddio'r sector cerbydau masnachol yng Nghymru gan ddefnyddio'r prif lwybrau technoleg. Lanswyd yr adroddiad ar 21 Mawrth. Y prif lwybr hirdymor i ddatgarboneiddio'r sector cerbydau masnachol fydd trydaneiddio. Fodd bynnag, bydd hyn yn cymryd amser ac mae mathau o weithrediadau efallai na fydd trydaneiddio yn opsiwn hyfyw ar eu cyfer ar hyn o bryd. Felly, er mwyn datgarboneiddio cerbydau masnachol yng Nghymru cymaint ag y bo modd, rhaid mabwysiadu pob llwybr ar yr un pryd. Bydd Llywodraeth Cymru nawr yn ystyried yr adroddiad ac yn ymateb iddo.

Nod Rhaglen ReAct+ Llywodraeth Cymru yw helpu pobl sydd wedi colli eu swyddi i ennill y sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdany'n nhw. Gall y rhaglen ddarparu grant hyfforddiant galwedigaethol o hyd at £1500, a gall gefnogi pobl i ennill trwyddedau LGV, cymhwyster gyrrwr CPC a chymwysterau ategol fel HIAB ac ADR. Gall y rhaglen hefyd ariannu hyfforddiant gloywi i yrwyr lorïau sy'n dymuno ailymuno â'r sector. Gall ReAct+ hefyd gefnogi cyn droseddwyr neu droseddwyr sy'n bwrw dedfrydau cymunedol, ac rydyn ni'n cynllunio rhaglenni peilot i helpu carcharorion sydd ar fin cael eu rhyddhau i gwblhau'r prawf theori LGV fel y gallan nhw ymgymryd â'r hyfforddiant ymarferol a'r prawf yn fuan ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau o'r carchar. Mae Rhaglen ReAct+ a'i rhagflaenwyr wedi ariannu ymhell dros 1,000 o bobl i gael trwyddedau HGV/LGV.

Yr eiddoch yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken Skates', with a stylized flourish extending to the right.

Ken Skates AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddrafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales



22 Ebrill 2025

Annwyl Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Isod mae esboniad manwl o'r cyfundrefnau rheoleiddio ar gyfer porthladdoedd sydd ar waith y gofynnwyd amdano yn dilyn Pwyllgor Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig ar 06 Fawrth, gan gynnwys amlinelliad o sut mae'r gwahanol gyfundrefnau rheoleiddio yn Llywodraeth y DU yn gweithredu.

Wedi'u cadw yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU

Mae'r rhan fwyaf o'r cyfundrefnau rheoleiddio ar gyfer Porthladdoedd wedi'u cadw yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU. O dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (Deddf HSW), rhaid i gyflogwyr, pobl sy'n rheoli safleoedd, pobl hunangyflogedig a phobl cyflogedig sicrhau iechyd a diogelwch eraill a'u hunain.

Mae rheoliadau hefyd sy'n gymwys i bob diwydiant oherwydd bydd llawer o'r peryglon yr un peth. Ond mae gan rai diwydiannau ddarnau penodol o ddeddfwriaeth. Yn y diwydiant porthladdoedd, mae'r rhain yn cynnwys:

- Rheoliadau Dociau 1988; 2 o 11 tudalen Canllaw cyflym Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i iechyd a diogelwch mewn porthladdoedd
- Rheoliadau Sylweddau Peryglus mewn Ardaloedd Harbwr 1987; a
- Rheoliadau Llwytho a Dadlwytho Cychod Pysgota 1988.

Mae'r Cod Ymarfer Cymeradwy ar Ddiogelwch mewn Dociau (COP25) yn cwmpasu Rheoliadau Dociau 1988 ond mae llawer o'r deunydd hwnnw wedi'i ddiddymu a'i ddisodli gan ddeddfwriaeth fwy diweddar.

Nid yw Deddf HSW a rheoliadau cysylltiedig yn gymwys i forwyr sy'n gweithio ar fwrdd llong o dan reolaeth meistr y llong. Mae Rheoliadau Iechyd a Diogelwch Llongau Masnach

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 94
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cymharol yn gymwys i griw llongau ac maent yn cael eu gorfodi gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA).

Mae rheoliadau hefyd sy'n gymwys i bob diwydiant oherwydd bydd llawer o'r peryglon yr un peth waeth beth fo'r diwydiant dan sylw. Ond mae gan rai diwydiannau ddarnau penodol o ddeddfwriaeth. Yn y diwydiant porthladdoedd, mae'r rhain yn cynnwys:

- [Dyletswyddau o dan Reoliadau Nwyddau Peryglus mewn Ardaloedd Harbwr 2016 \(DGHAR\)](#)
- [Rheoliadau Llwytho a Dadlwytho Cychod Pysgota 1988.](#)

Roedd Rheoliadau Dociau 1988 mewn grym tan 6 Ebrill 2014. Cafodd yr hen ACOP 'Diogelwch mewn Dociau' (COP25) ei ddisodli gan [ACOP Diogelwch mewn Dociau \(L148\)](#) newydd ar yr un pryd.

Sefydliad Llywodraeth y DU yw'r Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Morol (MAIB), yn benodol, uned annibynnol yn yr Adran Drafnidiaeth. Maent yn gyfrifol am:

- gynnal ymchwiliadau i bennu achosion damweiniau ar y môr
- cyhoeddi adroddiadau sy'n cynnwys argymhellion MAIB ar wella diogelwch ar y môr a'r camau rydyn ni wedi'u cymryd
- cynyddu ymwybyddiaeth o sut mae damweiniau morol yn digwydd
- gwella cydweithrediad cenedlaethol a rhyngwladol mewn ymchwiliadau i ddamweiniau morol
- Mae Cymdeithas Porthladdoedd Prydain wedi mapio rhai o'r darnau pwysicaf o ddeddfwriaeth a rheoleiddio sy'n effeithio ar borthladdoedd, ond mae hyn yn pwysleisio natur gymhleth rheoliadau y mae'r rhai sy'n gweithredu porthladdoedd yn eu hwynebu. [Mapio Rheoleiddio Porthladdoedd - Cymdeithas Porthladdoedd Prydain.](#)

Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd

Mae Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd (PHA) wedi'u ffurfio gyda'r prif nod o atal clefydau epidemig a heintus peryglus rhag dod i'r wlad a sicrhau iachusrwydd bwyd wedi'i fewnforio.

Mae PHA yn awdurdod lleol a grëwyd yn benodol ar gyfer porthladd awyr neu fôr, sy'n torri ar draws ffiniau presennol cyngor, sydd â phwrpas cyffredin wrth ddelio â phorthladd – hy. dyletswyddau o dan y Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol. Bydd y PHA yn amsugno swyddogaethau statudol dirprwyedig gan bob Awdurdod Lleol y mae'n eu ymestyn ar eu traws mewn perthynas â'r gweithgareddau hyn.

Mewn llawer o ardaloedd ledled Cymru, mae'r Awdurdod Lleol yn cyflawni swyddogaethau ffiniau iechyd porthladdoedd heb sefydlu PHA. Mae hyn yn gyffredin yn yr Alban. Mae'n werth nodi hefyd nad yw Ynys Môn wedi sefydlu PHA.

Cymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd yw'r unig sefydliad ledled y DU sy'n cynrychioli buddiannau Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd sydd â chyfrifoldebau am reolaethau iechyd porthladdoedd a meysydd awyr.

Mae'n gwmni wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol sy'n cynrychioli bron i holl gyflogwyr timau iechyd porthladdoedd. Mae'n eistedd y tu allan i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ond mae'n cysylltu â'r llywodraeth ganolog ar ran porthladdoedd mynediad.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am eu rolau yma; [Cymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd](#)

Y Swyddfa Gartref / Llu'r Ffiniau

Llu'r Ffiniau yw'r rhan o'r Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am ddiogelu ffin y DU 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn trwy orfodi rheoliadau mewnfudo a thollau.

[Llu'r Ffiniau - GOV.UK](#)

Safleoedd Rheolaethau'r Ffin

Cyhoeddwyd prosesau newydd ar gyfer rheolaethau diogelwch (sy'n gymwys i bob math o fewnforion), a rheolaethau iechydol a ffytoiechydol (sy'n gymwys i fewnforio anifeiliaid byw, cynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion a bwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid) ym Model Gweithredu Targed y Ffin Llywodraeth y DU ym mis Awst 2023.

Mae'r newidiadau hyn bellach yn cael eu cyflwyno'n raddol.

Ar 31 Ionawr 2024 cyflwynwyd gofyniad i rag-hysbysu cyn mewnforio ar gyfer Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (POAO), ynghyd â Thystysgrifau Iechyd Allforio ar gyfer mewnforio cynhyrchion anifeiliaid risg canolig, planhigion, cynhyrchion planhigion a bwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid o'r UE, ac eithrio Nwyddau Cymwys i Ogledd Iwerddon.

Mae rhagor o fanylion ar gael yma:

[Rheolaethau ffiniau a seilwaith ar ôl gadael yr UE | LLYWODRAETH. CYMRU](#)

Y Bil Hawliau Cyflogaeth / Deddf Cyflogau Morwyr 2023

Mae'r Bil Hawliau Cyflogaeth yn diwygio Deddf Cyflogau Morwyr 2023 i roi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n pennu cyflogau ac amodau gwaith morwyr sy'n gweithio ar longau sy'n darparu gwasanaethau a gwmpesir gan y Ddeddf honno ar hyn o bryd. Mae'r amodau hynny yn orfodadwy yn yr un modd â darpariaethau presennol y Ddeddf honno.

Wedi eu datganoli

Gorchmynion Diwygio Harbyrau (HRO)

Mae Deddf Harbyrau 1964 ("HA 1964") yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymestyn a/neu ddiwygio pwerau a dyletswyddau SHA, cau harbwr neu greu harbwr newydd ynghyd â'r SHA a fydd yn cymryd cyfrifoldeb amdano.

Mae'r pwerau hyn yn cael eu harfer trwy orchmynion harbwr ("HO"), math o is-ddeddfwriaeth a all gymryd gwahanol ffurfiau. Gellir gwneud gorchmynion harbwr ar gais gan SHA, deisebydd sy'n ceisio gorchmyn grymuso neu mewn rhai achosion, y Gweinidog priodol sy'n gweithredu ar eu menter eu hunain.

Yn gyffredinol, gellir categorio gorchmynion harbwr yn ddau fath, gorchmynion 'gwaith' yw'r rhai sy'n ceisio adeiladu neu ddatblygu rhan o harbwr, neu harbwr yn ei gyfanrwydd.

Mae ceisiadau nad ydynt yn cynnwys prosiectau o'r fath ar gyfer gorchmynion 'nad ydynt yn ymwneud â gwaith'. Mae'r broses ymgeisio ar gyfer y ddau fath yn amrywio.

Tollau Harbwr

Mae Deddf Cymru 2017 yn darparu mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod rheoli ar gyfer y rhan fwyaf o borthladdoedd a harbyrau yng Nghymru (yr eithriad yw porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl).

O dan Ddeddf Harbyrau 1964 ("HA 1964"), mae gan awdurdodau harbwr statudol ("SHA"), y pŵer i osod tollau harbwr ar ddefnyddwyr yr harbwr.

Yn y ddeddf, mae'r term "*harbour dues*" yn cwmpasu "*ship, passenger and goods dues*". Ffioedd yw'r tollau harbwr hyn, y mae adran 57 o Orchymyn Harbyrau 1964 yn eu diffinio fel rhai sy'n cynnwys prisiau, cyfraddau, a thollau o bob disgrifiad.

Mae'r costau hynny yn gysylltiedig â:

- llongau sy'n mynd i mewn i'r harbwr, yn ei ddefnyddio neu'n ei adael.
- teithwyr sy'n gadael neu'n cyrraedd yn yr harbwr; a
- nwyddau.

ond nid costau a godir am ddefnyddio cyfleusterau ategol yn yr harbwr neu'r porthladd dan sylw a ddarperir ar gyfer teithwyr neu nwyddau.

Hawl i wrthwynebu

Mae adran 31 (1) yn darparu hawl i wrthwynebu "*ship, passenger and goods dues*". Mae adran 31 (2)(a) yn caniatáu i berson neu gorff cynrychioliadol sydd â buddiant sylweddol, wrthwynebu'r ffioedd trwy gyflwyno'r gwrthwynebiad yn ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Gellir gwneud gwrthwynebiad ysgrifenedig i ffioedd ar amrywiol seiliau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru; [Porthladdoedd a harbyrau | Is-bwnc | LLYWODRAETH. CYMRU](#)

Cynllunio a Chydsynio

Ar hyn o bryd mae gan Gymru dair haen o brosesau cydsynio ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau seilwaith (mae rhai eithriadau):

Awdurdodau cynllunio lleol sydd yn penderfynu ar brosiectau llai o faint;

Mae prosiectau mwy, lle mae cydsyniad wedi ei ddatganoli, yn cael eu penderfynu gan Lywodraeth Cymru drwy'r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS); ac

Mae prosiectau mwy, lle nad yw cydsyniad wedi ei ddatganoli, yn cael eu penderfynu gan Lywodraeth y DU trwy'r broses Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP).

Bydd Deddf Seilwaith (Cymru) yn sefydlu proses newydd i roi cydsyniad i brosiectau seilwaith mawr yng Nghymru, gan gynnwys prosiectau ynni, gwastraff, dŵr a thrafnidiaeth mawr.

Bydd y bil hwn yn symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau, gan helpu i gefnogi buddsoddiad a datblygu porthladdoedd, i sicrhau bod ein porthladdoedd yn barod i fanteisio ar gyfleoedd fel prosiectau gwynt ar y môr.

Mae rhagor o wybodaeth am y cyllid ar gael yma.

[Adeiladu a chynllunio | Pwnc | LLYW.CYMRU](#)

Trwyddedau Morol

Mae angen trwydded forol ar lawer o weithgareddau sy'n digwydd yn y môr ac o amgylch y môr.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am drwyddedu morol yn nyfroedd Cymru. I weld rhagor o wybodaeth gefndirol, ewch i;

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Trwyddedu morol](#)

Yr eiddoch yn gywir



Ken Skates AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddrafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDC/0188/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Ebrill 2025

Annwyl Mike,

Ysgrifennaf atoch yn unol â'r cytundeb ar gysylltiadau rhyngsefydliadol, ac ymhellach at fy llythyr dyddiedig 26 Mawrth, i dynnu eich sylw at [Ddatganiad Ysgrifenedig Gweinidogol](#) sy'n crynhoi'r trafodaethau yn y cyfarfod diweddaraf o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 101

Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a
Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

1 Ebrill 2025

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ein hadroddiad ynghylch ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, gwnaethom nifer o argymhellion sy'n ymwneud â gwella'r modd y caiff y gyllideb ei chyflwyno. Gwnaethom hefyd gytuno i ymgynghori â'r Pwyllgorau ynghylch y ddogfennaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i chynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

*"Casgliad 1. Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd sy'n ymwneud â
chraffu ar y gyllideb cyn Adolygiad o Wariant Cymru a chylch cyllideb 2026-27
i archwilio ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar graffu ar y gyllideb yn y Senedd, er mwyn
lliniaru effaith cyfnod craffu wedi'i gwtogi."*

O ganlyniad, wrth fyfyrto ar y profiad o graffu ar y gyllideb eleni, ac wrth geisio gwella'r ddogfennaeth gyllidebol a gaiff ei darparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27 a thu hwnt, byddwn yn gwerthfawrogi cael barn eich pwyllgor ar y cwestiynau a ganlyn:

- Pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran y ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog? Yn eich ymateb, dylech gyfeirio at amseroldeb, ansawdd a defnyddioldeb unrhyw ddogfennaeth a/neu dystiolaeth sydd wedi dod i law.
- Bydd Adolygiad o Wariant y DU, a gaiff ei gyhoeddi ar 11 Mehefin 2025, yn darparu cyllid dangosol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod. O ystyried hynny, a oes gennych unrhyw farn ar y wybodaeth y byddai ei hangen arnoch o ran yr Adolygiad o Wariant ar gyfer Cymru a fydd yn dilyn, naill ai i ategu dogfennaeth y gyllideb neu fel ymarfer ar wahân?

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn **dydd Gwener 23 Mai 2025**. Yna, bydd eich sylwadau'n cael eu coladu a'u rhoi i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, i'w hystyried cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau'r Gyllideb ar gyfer 2026-27, a gaiff ei harwain gan y Pwyllgor Cyllid ac a gaiff ei chynnal cyn toriad yr haf.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

